Y Comisiwn Etholiadol

Safonau perfformiad i Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr

Tachwedd 2013

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 9A Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Cynnwys

1 Trosolwg 1
Cefndir 1
Y safonau perfformiad 1

2 Safonau perfformiad i Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr 3
Safon perfformiad 1: Pleidleiswyr 3
Safon perfformiad 2: Y rhai sydd eisiau sefyll ar gyfer etholiad 6
Safon perfformiad 3: Cydlynu a rheoli'r etholiad 8

1 Trosolwg

Cefndir

1.1 Rhoddodd y Ddeddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006 bwerau i'r Comisiwn Etholiadol osod a monitro safonau perfformiad ar gyfer gwasanaethau etholiadol. O dan y darpariaethau hyn, gall y Comisiwn:

- bennu a chyhoeddi safonau perfformiad ar gyfer swyddogion etholiadol perthnasol ym Mhrydain Fawr (Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs), Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif)
- gyfarwyddo swyddogion perthnasol i ddarparu adroddiadau i'r Comisiwn ynghylch eu perfformiad yn erbyn y safonau a gyhoeddwyd
- gyhoeddi ei asesiad o lefel y perfformiad gan swyddogion perthnasol yn erbyn y safonau a gyhoeddwyd

1.2 Gosododd y Comisiwn y safonau cyntaf ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ym mis Mawrth 2009, a diwygio'r fframwaith ym mis Rhagfyr 2011. Gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd gennym o fonitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau dros y pum mlynedd diwethaf, a chan ystyried yr adborth a gawsom, rydym bellach wedi datblygu fframwaith safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau sy'n anelu at gefnogi Swyddogion Canlyniadau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson i bleidleiswyr a'r rhai sy'n sefyll ar gyfer etholiad.

Y safonau perfformiad

1.3 Mae'r fframwaith wedi'i datblygu o amgylch canlyniadau allweddol o safbwynt pleidleiswyr a'r rheiny sydd am sefyll mewn etholiad, ac yn benodol p'un a bod Swyddogion Canlyniadau yn cymryd y camau angenrheidiol i ddarparu'r canlyniadau canlynol:

- Pleidleiswyr yn gallu pleidleisio'n hawdd a gwybod y bydd eu pleidlais yn cael ei chyfri yn y modd y bwriadwyd
- Mae'n hawdd i bobl sydd am sefyll mewn etholiad ddarganfod sut i wneud hyn, beth yw'r rheolau a beth sydd angen iddyn nhw wneud i gydymffurfio gyda'r rheolau hyn, a gallant fod yn hyderus yn rheolaeth y broses a'r canlyniad.

1.4 Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys safon sy'n benodol yn cynnwys rôl deiliaid swyddi statudol gyda grym i gyfarwyddo eraill fydd yn cael ei osod gyda'r rhannau perthnasol o safonau perfformia 1 a 2.

1.5 Bydd y Comisiwn yn darparu canllawiau, teclynnau a thempledi i gynorthwyo Swyddogion Canlyniadau i gynllunio a darparu etholiad. Bydd y rhain yn gosod beth rydym ni'n disgwyl i Swyddogion Canlyniadau gael yn eu

lle, a beth y byddem yn disgwyl gweld wrth adolygu'r wybodaeth, i allu bod yn fodlon bod prif ganlyniadau'r safonau yn gallu cael eu darparu.

Mae'r tudalennau canlynol yn gosod y safonau perfformiad newid ar gyfer Swyddogion Canlyniadau.

2 Safonau perfformiad i Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr

Safon perfformiad 1: Pleidleiswyr

Sicrhau bod cynllunio ar gyfer etholiad a chyflenwi'r etholiad yn galluogi pleidleiswyr i bleidleisio yn rhwydd a gwybod y bydd eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y ffordd y maent yn ei fwriadu

Canlyniad	Beth sydd angen i'r Swyddog Canlyniadau ei wneud i gyflawni'r canlyniad	Beth fydd yn dangos fod y canlyniad wedi ei fodloni
Pleidleiswyr yn derbyn y wybodaeth sydd ei hangen, mewn fformat hygyrch ac o fewn amser iddynt fwrw eu pleidlais	• Datblygu a gweithredu prosesau rheoli prosiect cadarn • Gwerthuso cynllunio ar gyfer a chyflenwi etholiadau blaenorol a nodi'r gwersi a ddysgwyd, gan ddiweddaru cynlluniau yn ôl y gofyn • Rhoi trefniadau yn eu lle i reoli contractwyr a chyflenwyr i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflwyno fel sy'n ofynnol gan y fanyleb • Sicrhau bod prosesau cadarn yn eu lle ar gyfer sicrhau nad oes unrhyw	• Dogfennau cynllunio prosiect sydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd • Dogfennau cynllunio'n adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd • Trefniadau yn eu lle ar gyfer rheoli contractwyr a chyflenwyr • Prosesau ar gyfer prawfddarllen deunyddiau pleidleiswyr, hysbysiadau pleidleisio a hysbysiadau etholiad • Gwybodaeth am y dull o gyflwyno cardiau pleidleisio, gan gynnwys amcangyfrif o bryd fydd cardiau

	gamgymeriadau ar ddeunyddiau pleidleiswyr, hysbysiadau pleidleisio a hysbysiadau etholiad • Sicrhau bod cardiau pleidleisio yn cael eu derbyn gan bleidleiswyr cyn gynted ag y bo modd fel bod pleidleiswyr yn cael yr amser hiraf bosibl i weithredu ar yr wybodaeth • Sicrhau bod gwybodaeth am yr etholiad, gan gynnwys yr hysbysiad etholiad a hysbysiad pleidleisio, yn hawdd i bleidleiswyr ei chael, megis trwy wefan yr awdurdod lleol	pleidleisio yn cael eu hanfon • Yn hawdd cael gwybodaeth am yr etholiad drwy wefan yr awdurdod lleol
Pleidleiswyr yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel	• Sicrhau bod anghenion mynediad yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio ar gyfer a sefydlu gorsafoedd pleidleisio • Penderfynu ar ddyrannu etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio wedi'u staffio'n briodol fel bod pleidleiswyr yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel, gan roi ystyriaeth i ffactorau a nodir yng nghanllawiau'r Comisiwn • Sicrhau bod staff yr orsaf bleidleisio yn cael eu hyfforddi i sefydlu gorsafoedd pleidleisio yn y fath ffordd sy'n ystyried anghenion pleidleiswyr • Sicrhau bod pecynnau pleidleisio	• Asesu mewn perthynas ag anghenion mynediad, gan nodi unrhyw broblemau a chamau a gymerwyd i ddatrys y rhain • Dull o ddyrannu etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio • Canllawiau/hyfforddiant a ddarparwyd i staff yr orsaf bleidleisio • Gwybodaeth ar y dull o anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post, yn cynnwys amcangyfrif o bryd y bydd pecynnau pleidleisio drwy'r post yn cael eu hanfon

	drwy'r post yn cael eu derbyn gan bleidleiswyr cyn gynted ag y bo modd fel bod pleidleiswyr yn cael yr amser hiraf bosibl i weithredu ar yr wybodaeth	
Pleidleiswyr yn hyderus y bydd eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y ffordd y maent yn ei fwriadu	• Cynnal trywydd archwilio clir o'r anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post • Cael prosesau yn eu lle i nodi unrhyw batrymau o weithgaredd a allai fod yn arwydd o broblemau hygrededd posibl, gan gynnwys pa gamau sydd i'w cymryd i ddelio ag unrhyw broblemau o'r fath • Cynnal y storfa ddiogel o bapurau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post bob amser • Rhoi adnoddau priodol yn eu lle i sicrhau bod y dilysu a'r cyfrif yn amserol • Sicrhau bod y canlyniadau yn cael eu cyfleu i bleidleiswyr mewn ffordd glir ac amserol • Sicrhau bod prosesau cyfrif yn cael eu cynllunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda thrywydd archwilio clir	• Trefniadau i gynnal trywydd archwilio clir o anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post • Prosesau ar gyfer delio â phroblemau hygrededd • Trefniadau ar gyfer storio papurau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel • Gwybodaeth am sut mae'r dilysu a'r cyfrif yn cael ei drefnu a'i reoli, gan gynnwys y broses a ddilynir i gyrraedd eich penderfyniad • Trefniadau ar gyfer cyfathrebu canlyniadau i bleidleiswyr • Trefniadau yn eu lle i gynnal trywydd archwilio clir o'r prosesau cyfrif

Safon perfformiad 2: Y rhai sydd eisiau sefyll ar gyfer etholiad

Sicrhau bod cynllunio ar gyfer a chyflenwi'r etholiad yn galluogi pobl sydd am sefyll ar gyfer etholiad yn cael gwybod sut i gymryd rhan, beth yw'r rheolau, a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau hyn, ac sy'n eu galluogi i fod â hyder yn rheolaeth y broses a'r canlyniad

Canlyniad	Beth sydd angen i'r Swyddog Canlyniadau ei wneud i gyflawni'r canlyniad	Beth fydd yn dangos fod y canlyniad wedi ei fodloni
Pobl sydd am sefyll ar gyfer etholiad yn derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen i gymryd rhan	• Sicrhau bod gwybodaeth am broses yr etholiad a gwariant ar gael yn rhwydd i ymgeiswyr ac asiantau, gan gynnwys drwy ddarparu sesiynau briffio a sicrhau eu bod yn derbyn canllawiau ysgrifenedig • Sicrhau bod ymgeiswyr yn cael y cyfle i gael gwirio eu papurau enwebu yn anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol	• Canllawiau ysgrifenedig yn cael eu rhoi i ymgeiswyr • Dyddiad(au) sesiynau briffio ac adnoddau briffio • Trefniadau yn eu lle i ymgeiswyr gael gwirio eu papurau enwebu yn anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol
Ymgeiswyr yn hyderus bod y broses yn cael ei rheoli'n dda, a bod ganddynt hyder yn y canlyniadau	• Sicrhau bod y rhai sydd â hawl i fynychu sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post yn gallu dilyn yr hyn sy'n digwydd, ble a phryd • Sicrhau bod prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phopeth yn y dilysu a'r cyfrif yn cael ei gynnal yng ngolwg glir	• Cynllun gosodiad o sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post • Rhoi gwybodaeth i fynychwyr mewn sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post • Cynllun gosodiad y cyfrif • Rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n mynychu'r cyfrif

	pawb sydd â hawl i fod yn bresennol, gyda gwybodaeth yn cael ei darparu i fynychwyr ar y prosesau i'w dilyn • Sicrhau bod prosesau cyfrif yn cael eu cynllunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda thrywydd archwilio clir • Cael prosesau yn eu lle i nodi unrhyw batrymau o weithgaredd a allai fod yn arwydd problemau hygrededd posibl, gan gynnwys pa gamau sydd i'w cymryd i ddelio ag unrhyw broblemau o'r fath	• Trefniadau yn eu lle i gyfleu'r cynnydd yn y cyfrif • Trefniadau yn eu lle i gynnal trywydd archwilio clir o'r prosesau cyfrif • Prosesau ar gyfer delio â phroblemau hygrededd

Safon perfformiad i ddeiliaid swydd statudol gyda phŵer cyfarwyddo

Safon perfformiad 3: Cydlynu a rheoli'r etholiad

Cyd-drefnu cynllunio ar gyfer etholiad a chyflenwi'r etholiad i sicrhau profiad cyson o ansawdd uchel i bleidleiswyr a'r rhai sydd am sefyll ar gyfer etholiad

Canlyniad	Beth sydd angen i'r deiliad swydd statudol ei wneud i gyflawni'r canlyniad	Beth fydd yn dangos fod y canlyniad wedi ei fodloni
I sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau lleol y trefniadau angenrheidiol yn eu lle i gyflenwi etholiadau sy'n cael eu rhedeg yn dda yn eu hardal	• Datblygu a gweithredu prosesau rheoli prosiect cadarn • Datblygu canllawiau a rhoi cyfarwyddiadau lle bo angen i sicrhau gweinyddu effeithiol etholiadau ym mhob ardal Swyddog Canlyniadau lleol • Datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau lleol • Datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer cyd-drefnu a darparu	• Dogfennau cynllunio prosiect sydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd • Trefniadau ar gyfer sicrhau cyflenwad cyson yr etholiad, gan gynnwys canllawiau a gyhoeddwyd a p'un a sut rydych wedi defnyddio eich pŵer i roi cyfarwyddiadau • Cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau lleol • Strategaeth ar gyfer cyd-drefnu a chyflwyno gweithgareddau ymwybyddiaeth y cyhoedd ac

	ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu ag etholwyr ar draws yr ardal • Lle bo'n briodol, datblygu proses ar gyfer derbyn a chyflwyno canlyniadau lleol	ymgysylltu ag etholwyr ar draws yr ardal • Trefniadau ar sut yr ydych yn bwriadu rheoli'r broses o gasglu canlyniadau lleol, gan gynnwys unrhyw brotocolau a chanllawiau a roddwyd i Swyddogion Canlyniadau lleol